



CANLLAW I DROSOLWG A CHRAFFU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

Cynnwys**Tudalen/nau**

Cyflwyniad a Chefndir	1
Cylch Gorchwyl a meysydd cyfrifoldeb Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu	2-4
Swyddogaeth Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu	4-5
Cyfarfodydd	5
Ffilmio a Recordio Sain mewn cyfarfodydd	5
Gosod y Rhaglen Waith	5-6
Presenoldeb mewn cyfarfodydd	6
Gweithdrefn Galw-i-mewn	6
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen	6
Adroddiadau Blynyddol	7
Ymgysylltu â'r Cyhoedd	7
Manylion Cyswllt Swyddogion Cymorth Craffu	8
Atodiad A - Siart Gweithdrefn Galw-i-mewn	9

Cyflwyniad a Chefndir

Cyflwynwyd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, pan barodd y newidiadau, a wnaed i strwythurau gwleidyddol o fewn Cyngorau, iddi fod yn bosibl sefydlu model Arweinydd a Chabinet (Aelodau Gweithredol), yn ogystal ag un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o leiaf.

O fewn y strwythur hwn, swyddogaeth Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw galluogi Aelodau, sydd heb fod yn aelodau gweithredol, i alw'r Aelodau Gweithredol i gyfrif, drwy adolygu, ymchwilio a herio penderfyniadau, gan gyfrannu i ddatblygiad polisi a monitro perfformiad. Bwriad craffu yw:

- Gwella perfformiad y Cyngor;
- Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn rhoi gwerth am arian;
- Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn ymateb i anghenion lleol;
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Ni all Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wneud penderfyniadau; gwneud argymhellion yn unig y maent i Aelodau Gweithredol y Cyngor.

Mae gan Sir Benfro bum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;

- Corfforaethol
- Gwasanaethau
- Polisi a Chyn Penderfynu
- Partneriaethau
- Ysgolion a Dysgu

Mae gan bob Pwyllgor 13 o aelodau ac mae'n gytbwys yn wleidyddol er mwyn adlewyrchu aelodaeth y Cyngor. Mae gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu bedwar aelod cyfetholedig statudol ychwanegol fel a ganlyn:

- Un cynrychiolydd esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru;
- Un cynrychiolydd esgobaeth yr Eglwys Babyddol;
- Dau gynrychiolydd Llywodraethwyr sy'n rhieni;

At hynny, mae gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau bedwar aelod cyfetholedig heb bleidlais, y mae eu haelodaeth wedi ei chyfyngu i ymarfer pwerau'r Pwyllgor mewn perthynas â materion Trosedd ac Anhrefn yn unig. Mae'r aelodau cyfetholedig hyn yn cynrychioli'r asiantaethau canlynol:

- Heddlu Dyfed Powys
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Y Gwasanaethau Prawf
- Y Bwrdd Iechyd Lleol

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Cylch gorchwyl a meysydd cyfrifoldeb Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Mae cylch gorchwyl a meysydd cyfrifoldeb pob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Craffu fel a ganlyn:

Pwllgor Trosolwg a Craffu Corfforaethol

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Craffu Corfforaethol yw adolygu a chraffu ar swyddogaethau a gwasanaethau cymorth corfforaethol.

Bydd gan y Pwyllgor oruchwyliaeth dros gyfeiriad strategol cyffredinol, polisiau, cynlluniau a blaenoriaethau'r Cabinet a'r Cyngor (ar ôl gwneud penderfyniadau) a bydd yn monitro eu gweithredu. Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar wasanaethau corfforaethol gan ddefnyddio gwybodaeth rheoli berthnasol fel Cynlluniau Gwella Gwasanaethau a Chofrestrau Risg Busnes. Gellir cyfeirio unrhyw feysydd o gonsyrn penodol i'r Pwyllgor Trosolwg a Craffu Gwasanaethau yn ôl yr angen.

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor mewn perthynas â swyddogaethau a gwasanaethau corfforaethol:

Swyddogaethau Corfforaethol

- Swyddfa'r Arweinydd
- Adroddiadau blynyddol Aelodau Cabinet
- Prif Weithredwr
- Monitro cyllidebau (bob blwyddyn a phob chwarter)
- Monitro perfformiad corfforaethol (bob blwyddyn a phob chwarter)
- Cynllunio corfforaethol
- Adroddiadau corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru
- Gwella gwasanaethau
- Diogelu

Gwasanaethau corfforaethol

- Gwasanaethau Ariannol
- Technoleg Gwybodaeth
- Archwilio a Risg
- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adnoddau Dynol
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgor
- Caffael
- Marchnata a Chyfathrebu
- Gwasanaethau Etholiadol

Pwllgor Trosolwg a Craffu Gwasanaethau

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Craffu Gwasanaethau yw adolygu a chraffu ar y gwasanaethau a gyflwynir gan y Cyngor.

Bydd y Pwyllgor yn craffu ar ansawdd a pherfformiad gwasanaethau a gyflwynir gan y Cyngor i'r cyhoedd.

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor a'r adrannau o fewn y gwasanaethau hyn:

- Priffyrdd ac Adeiladu
- Yr Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil Posibl
- Tai
- Cynllunio
- Eiddo
- Gwasanaethau Refeniw
- Diogelu'r Cyhoedd
- Adfywio
- Gwasanaethau Diwylliannol
- Gofal Oedolion
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Hamdden

Pwllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu yw adolygu a chraffu ar bolisiau, cynlluniau a strategaethau cyn i'r Cabinet wneud penderfyniadau.

Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â chraffu cyn gwneud penderfyniad, er mwyn cyfrannu at ansawdd a chadernid dull y Cabinet o wneud penderfyniadau. Swyddogaeth bellach gan y Pwyllgor yw sicrhau bod dull y Cabinet o wneud penderfyniad yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried yr egwyddor o 'ddatblygiad cynaliadwy' a 5 ffordd o weithio (tymor hir, ataliol, cynhwysol, cydweithredol ac integredig) yn ogystal â gofynion statudol eraill yn ôl yr angen (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010).

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor:

- Blaenraglen waith y Cabinet
- Cynigion am newid, trawsnewid a/neu effeithlonrwydd gwasanaethau
- Aseidiadau Effaith Integredig
- Strategaethau a chynlluniau (yn ôl yr angen)
- Cynigion cyllideb blynyddol

Pwllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau yw adolygu a chraffu ar weithgareddau lle mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â neu ar y cyd ag asiantaethau eraill.

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu fel y pwyllgor sydd wedi ei ddynodi i fod yn gyfrifol am graffu ar weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y Pwyllgor hefyd, yn ôl yr angen, yn craffu ar sut mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno neu gomisiynu gwasanaethau. Bydd hefyd yn darparu trosolwg lle mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Hwn hefyd yw'r Pwyllgor dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros faterion Trosedd ac Anrhefn yn unol ag adran 19(1) Deddf Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor mewn perthynas â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a materion eraill yn ymwneud â chraffu:

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

- Datblygu a llunio Aseiad Llesiant lleol
- Datblygu a llunio Cynllun Llesiant
- Cynllun blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gweithgarwch y Bwrdd a chynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau
- Mae'n ofynnol i unrhyw aelod o'r Bwrdd, neu gyfranogwr sydd wedi ei wahodd, i fynychu a rhoi tystiolaeth (ond mewn perthynas yn unig a gweithredu swyddogaethau ar y cyd fel aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)

Arall

- Cofrestr Gweithio ar y Cyd (partneriaethau strategol)
- Comisiynu Strategol ar y Cyd
- Partneriaethau Statudol (e.e. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol)

Pwllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu

Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu yw adolygu a chraffu ar wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno i wella deilliannau i blant a phobl ifanc, gwasanaethau cymorth i ieuenctid a gwasanaethau eraill yn y gymuned gan gynnwys Addysg Oedolion. Bydd yn cefnogi codi safonau addysgol a deilliannau ddysgwyr.

Dyma gylch gwaith a chwmpas y Pwyllgor:

- Deilliannau addysgol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4
- Categoriaddio ysgolion
- Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Ysgolion Unigol (trwy'r Panel Craffu Ysgolion)
- Gwasanaethau Cynhwysiad
- Gwasanaethau Cymorth i ieuenctid a gwasanaethau eraill yn y gymuned
- Dysgu, sgiliau a hyfforddi ar ôl 16 oed
- Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag ysgolion a dysgu

Swyddogaeth Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion

Dylai Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gydweithio i gefnogi gwaith eu Pwyllgor, drwy:

- flaenoriaethu gwaith y Pwyllgor
- sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn ymddiddori a'u bod yn cael cyfle i gyfrannu a chael gwrandawriad
- cydweithio'n agos gyda swyddogion i gytuno ar y busnes ar gyfer pob cyfarfod a gosod yr agenda

Aelodau'r Pwyllgor

Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu beth y dylai Aelod Craffu ei wneud a phaidio â'i wneud, er mwyn gwneud yn siŵr bod ei swyddogaeth graffu'n cael ei chyflawni'n llwyddiannus a sicrhau bod nodau craffu yn cael eu cyrraedd;

- sicrhau ei fod yn deall ei swyddogaeth yn llawn, er mwyn iddo allu cyfrannu i gyfarfodydd a bod yn rhan o broses y 'cyfaill beirniadol'
- peidio â defnyddio cyfarfodydd i fynegi rhaglen bersonol
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd drwy ddarllen papurau, gwneud nodiadau a ffurfio cwestiynau heriol
- peidio â chodi pynciau sydd heb fod ar yr agenda
- gofyn cwestiynau cadarnhaol a heriol
- peidio â gwneud datganiadau yn hytrach na gofyn cwestiynau, na cheisio sgorio pwyntiau gwleidyddol
- cyfrannu at gynllunio rhaglenni gwaith i'r dyfodol a bod yn barod i gynorthwyo yn unrhyw grwpiau Gorchwyl a Gorffen
- ceisio sicrhau ei fod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Cyfarfodydd

Bydd pob Pwyllgor yn cynnal pum cyfarfod cyffredin o leiaf y flwyddyn, a gynhelir fel rheol yn Ystafell Bwyllgor 1 yn Neuadd y Sir. Ceir cynnal cyfarfod y tu allan i Neuadd y Sir, er enghraifft, pan fydd wedi ei gyfuno ag ymweliad safle Aelodau, neu er mwyn annog ymgysylltiad â'r gymuned ar bwnc neilltuol. Y cworwm ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd hanner yr aelodau sydd â phleidlais. Cynhelir cyfarfod ar y cyd rhwng dau neu fwy o Bwyllgorau pan fo'n briodol. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan fydd gwybodaeth o natur gyfrinachol neu wedi'i heithrio yn rhan o'r agenda, pan gaiff y cyhoedd eu cau allan o'r cyfarfod tra bydd yr eitem dan sylw yn cael ei thrafod.

Gosodir cofnodion y cyfarfodydd ar wefan y Cyngor o fewn 15 diwrnod gwaith yn dilyn dyddiad cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Ffilmio a Recordio Sain mewn Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor yn caniatáu ffilmio a recordio sain mewn cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn gyhoeddus. Rhaid i'r Cadeirydd, ar ddechrau'r cyfarfod, hysbysu'r sawl sy'n bresennol, y gall y cyfarfod neu rannau o'r cyfarfod gael eu ffilmio neu eu recordio ar offer sain. Gosodir hysbysiadau i'r perwyl hwn hefyd y tu mewn a'r tu allan i ystafell y cyfarfod.

Bydd yr hawliau i ffilmio neu recordio cyfarfodydd yn cael eu diddymu a chaiff y wasg a'r cyhoedd eu cau allan pan fydd gwybodaeth o natur gyfrinachol neu wedi'i heithrio i gael ei thrafod. Pan fo aelod o'r cyhoedd neu gynrychiolydd corff allanol i fod i siarad mewn cyfarfod, rhaid i'r Cadeirydd ofyn i bob unigolyn roi ei ganiatâd yn ysgrifenedig i gael ei ffilmio neu ei recordio'n siarad. Ni fydd ffilmio na recordio sain yn digwydd os bydd yr unigolyn dan sylw yn gwrthwynebu.

Gosod y Rhaglen Waith

Mae gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu raglen waith i'r dyfodol, sy'n rhoi manylion yr hyn y bydd y Pwyllgor yn craffu arno dros gyfnod o 12 mis. Mae rhaglenni gwaith yn cynnwys, er enghraifft:

- eitemau fydd, neu sydd wedi, cael eu hystyried gan y Cabinet (cyn ac ar ôl craffu ar benderfyniad)
- monitro perfformiad adrannol
- gwybodaeth ariannol/cynigion cyllideb
- eitemau sydd o ddiddordeb neu sy'n peri pryder i aelodau'r Pwyllgor

Caiff aelodau o'r cyhoedd hefyd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb roi awgrymiadau ymlaen ar gyfer eitemau i'w trafod gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Am y rhesymau hyn mae rhaglenni gwaith i'r dyfodol wedi eu bwriadu i fod yn hyblyg ac yn cael eu hystyried ym mhob cyfarfod a'u diweddaru pan fo angen. Gallant hefyd newid i wneud lle i faterion a all godi o fewn y flwyddyn ac sydd o fewn cylch gorchwyl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd

Bydd Swyddogion yn mynychu Cyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rheolaidd i roi gwybodaeth neu roi diweddariad ar lafar ar eitemau yn rhaglen waith y Pwyllgor. Efallai y gofynnir i Swyddogion ac Aelodau hefyd fynychu cyfarfodydd i roi adroddiad ar unrhyw eitem dan drafodaeth o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor.

Gellir caniatáu i Aelod, nad yw ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor ymlaen llaw, gyflwyno tystiolaeth mewn cyfarfodydd Pwyllgor lle mae hyn yn berthnasol i'w Etholaeth fel Aelod Lleol a hefyd yn berthnasol i'r agenda gerbron. Caiff Aelodau, nad ydynt ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, eto gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor ymlaen llaw, ofyn cwestiynau pan roddir cyflwyniadau i Bwyllgorau.

Mae pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei gynorthwyo gan Gyd-drefnydd Cymorth Craffu, sy'n mynychu pob cyfarfod i roi cyngor a darparu arweiniad i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor, ac i unrhyw weithgorau a sefydlir i gynnal ymchwiliadau manwl i feysydd neilltuol yn y rhaglen waith. Ceir manylion y Swyddogion Cymorth ar ddiwedd y ddogfen hon.

Caiff aelodau'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod, os nad oes gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth sydd wedi ei heithrio yn cael ei thrafod.

Gweithdrefn Galw-i-mewn

Mae gan aelodau yr awdurdod i herio penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, Aelod o'r Cabinet neu Bwyllgor y Cabinet. Mae modd i benderfyniad o'r fath gael ei alw-i-mewn gan Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan bedwar aelod o leiaf o'r un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gan unrhyw chwech Aelod etholedig o'r Cyngor. Gwelir siart yn dangos proses y weithdrefn Galw-i- mewn yn Atodiad A.

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Caiff Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen os byddant yn ystyried bod angen adolygu mater neu bwnc neilltuol. Caiff aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu dewis gan y Pwyllgor (neu Bwyllgorau os ystyrir bod mater/pwnc o fewn cylch gorchwyl mwy nag un Pwyllgor). Bydd y nifer o weithiau y bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod yn dibynnu ar natur y mater/pwnc sydd i gael ei adolygu. Darperir cymorth yng nghyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Swyddog Cymorth Craffu.

Adroddiadau Blynyddol

Bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn llunio adroddiadau blynyddol sy'n edrych yn ôl dros waith y Pwyllgorau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bydd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi ei gyflawni, y gwahaniaeth y mae gwaith y Pwyllgor wedi ei wneud, y canlyniadau allweddol, yr hyfforddiant a'r datblygiad yr ymgwymerodd aelodau'r Pwyllgor ag ef a heriau ar gyfer y Pwyllgor yn y flwyddyn i ddod. Gellir gweld copïau o'r adroddiadau blynyddol ar gyfer pob pwyllgor ac adroddiad blynyddol cyfunol y Cadeiryddion ar dudalennau Trosolwg a Chraffu gwefan y Cyngor.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn bwysig yn y broses Graffu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn canolbwyntio ar y dinesydd.

Mae adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau sy'n galluogi pawb sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal i ddod â'u safbwyntiau i sylw'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol ar unrhyw fater sydd dan ystyriaeth gan y pwyllgor. Mae'n ofynnol i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried unrhyw farn berthnasol a gyflwynir. Mae ffurflen ar gael ar dudalennau Trosolwg a Chraffu gwefan y Cyngor i alluogi pobl i gyflwyno'u barn.

Caiff aelodau'r cyhoedd sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal hefyd awgrymu pynciau i'w hystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a darparu tystiolaeth naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, os caiff y pwnc ei dderbyn i'w ystyried ac os bydd y Pwyllgor yn gofyn.

Manylion Cyswllt Swyddog Cymorth Craffu

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer y tîm:

Nick Evans
Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu
nicholas.evans@pembrokeshire.gov.uk
01437 775858

Claire George
Cydlynnydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu
claire.george@pembrokeshire.gov.uk
01437 776170

Lynne Richards
Cydlynnydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu
lynne.richards@pembrokeshire.gov.uk
01437 776252

scrutiny@pembrokeshire.gov.uk

GWEITHDREFN GALW I MEWN

Diddymir y gweithdrefnau galw i mewn isod os yw'r penderfyniad wedi'i gofnodi fel 'ar frys'

